Wythnos Addysg Oedolion
Adult Learners' Week

# Wythnos Addysg Oedolion Pecyn cymorth Diwrnod Sgiliau Gwaith







## 21 - 27 Medi 2026

gyda gweithgaredd hyrwyddo drwy gydol y mis.

**#paidstopiodysgu #wythnosaddysgoedolion**

D&G SEFYDLIAD DYSGU A GWAITH
LEARNING AND WORK INSTITUTE L&W

Working Wales
#neverstoplearning

Gyrfa Cymru
Careers Wales

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

# Cynnwys pecyn ymgyrch Wythnos Addysg Oedolion


3 Ymuno â phartneriaeth ymgyrch Dysgu a Gwaith

4 Sgiliau Gwaith a Chynnydd – diwrnod thema

5 Dathlu dysgu

6 Creu cyfleoedd i ddysgu

8 Dweud wrthym beth sydd gennych ar y gweill

9 Adnoddau a sgiliau ar gyfer straeon llwyddiant yn y gwaith

10 Archwiliwch ein hymchwil

11 Cysylltu â ni




# Join Learning and Work Institute's Adult Learners' Week campaign



**Drwy gydol mis Medi, gallwch ddefnyddio'r Wythnos Addysg Oedolion fel sbardun ar gyfer hyrwyddo dysgu a datblygu sgiliau yn y gweithle.**

Nid yw'n rhaid i ddysgu olygu cymwysterau ffurfiol – gall ddechrau gyda sesiwn flasu, gweithgaredd adeiladu tîm, rhannu angerdd am hobi neu siaradwr gwadd sy'n ysbrydoli.

**Galw am weithredu ar gyfer cyflogwyr:**
Mae'r Wythnos Addysg Oedolion yn gyfle i anfon neges glir: mae dysgu yn y gwaith yn bwysig, a dylai fod ar gael i bawb.

Mae pawb a gyflogir angen cyfleoedd i feithrin hyder, gloywi sgiliau, addasu i newid a chymryd y cam nesaf yn eu bywyd gwaith, beth bynnag eu rôl, oedran, cefndir neu fan dechrau.

Drwy greu cyfleoedd gweladwy, cynhwysol i ddysgu, gall cyflogwyr helpu pobl i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi gan gryfhau'r sgiliau, gwydnwch a gallu eu gweithle.

Ym mis Medi, defnyddiwch yr Wythnos Addysg Oedolion i ddathlu dysgu, dechrau sgyrsiau am ddysgu, hyrwyddo llwybrau dilyniant, cynnig sgiliau sesiynau ac annog pawb a gyflogir i roi cynnig ar rywbeth newydd. Pan ddaw dysgu yn rhan o fywyd gwaith bob dydd, mae unigolion yn tyfu, mae timau yn dod yn gryfach ac mae sefydliadau wedi paratoi'n well ar gyfer y dyfodol.

# Sgiliau ar gyfer Gwaith a Chynnydd
# Diwrnod thema: Dydd Mercher 23 Medi



Ar 23 Medi, mae gennym ddiwrnod neilltuol i ddathlu gweithgareddau dysgu yn y gwaith. Rydym yn eich annog i alinio'r gweithgareddau sydd gennych ar y gweill gyda'r diwrnod thema hwn lle'n bosibl.

Mae'n hollol iawn os na fedrwch drefnu gweithgareddau ar y diwrnod penodol hwnnw – rydym yn croesawu ac yn annog cynnal gweithgareddau dysgu unrhyw adeg drwy gydol yr wythnos.

**Mae dysgu yn y gwaith a drwy'r gwaith yn hanfodol i helpu pobl i feithrin hyder, addasu i newid, sicrhau cynnydd yn eu swyddi a chael mynediad i gyfleoedd newydd.**

Gall gweithleoedd hefyd fod yn byrth pwysig ar gyfer cyrraedd oedolion nad ydynt efallai yn credu fod dysgu iddyn nhw. Defnyddiwch y thema yma i ganolbwyntio digwyddiadau ar lwybrau ymarferol i ddatblygu sgiliau: cynnal sesiynau blasu a gweithdai yn y gweithle, hyrwyddo llwybrau cynnydd, cynnal digwyddiadau rhannu sgiliau neu wybodaeth, casglu gwybodaeth drwy arolygon a rhannu straeon llwyddiant sy'n dangos sut mae dysgu yn cefnogi unigolion, cyflogwyr a chymunedau ehangach.

# Dathlu dysgu



**Ffyrdd i gymryd rhan:**

Cydnabod a dathlu llwyddiannau eich gweithle.

**Gallech:**

- Rhannu straeon am lwyddiant a theithiau dysgu staff.
- Rhoi sylw i gydweithwyr sydd wedi ennill cymwysterau, cwblhau hyfforddiant neu ddatblygu sgiliau newydd.
- Defnyddio cyfathrebu mewnol i gydnabod llwyddiannau dysgu.
- Gofyn i staff rannu sut mae dysgu wedi eu helpu yn eu gwaith neu fywyd bob dydd.

# Creu cyfleoedd i ddysgu



**Mae'r Wythnos Addysg Oedolion yn rhoi cyfle i gyflwyno staff i brofiadau dysgu newydd.**

**Gallai gweithgareddau gynnwys:**

- Cynnal sesiwn flasu "Dysgu Amser Cinio" neu frecwast lle gall cydweithwyr ymchwilio pwnc newydd mewn 20-30 munud.
- Cynnal digwyddiad ffeirio sgiliau, gan wahodd staff i rannu cynghorion ymarferol, talentau cudd neu wybodaeth ddefnyddiol gyda chydweithwyr.
- Creu clinig hyder digidol yn cynnwys teclynnau bob dydd, diogelwch ar-lein, nodweddion hygyrchedd neu gyflwyno sgiliau deallusrwydd artiffisial.
- Gwahodd siaradwr, dysgu neu gydweithiwr sy'n ysbrydoli i rannu sut y mae dysgu wedi eu helpu i gynyddu hyder, newid cyfeiriad neu sicrhau cynnydd yn y gwaith.
- Cynnig sesiynau blasu byr ar gyfer eich staff.
- Sefydlu sgwrs fentora neu fentora-o-chwith i helpu cydweithwyr ddysgu ar draws swyddi, timau a chenedlaethau.

# Creu cyfleoedd i ddysgu

Wythnos Addysg Oedolion
Adult Learners' Week



- Trefnu sesiwn alw heibio "llwybrau gyrfa" lle gall staff gael gwybodaeth am lwybrau cynnydd, prentisiaethau, cymwysterau a chyfleoedd datblygu mewnol.
- Cynnal gweithgareddau dysgu drwy lesiant, tebyg i wydnwch, llesiant ariannol, ymwybyddiaeth ofalgar, cymorth cyntaf neu sesiynau ymwybyddiaeth iechyd meddwl.
- Creu her dysgu gweithle, gan annog timau i roi cynnig ar un sgil newydd, cwblhau cwrs byr neu rannu un peth y gwnaethant ei ddysgu.
- Cynnig sesiynau cysgodi swydd, teithiau tîm neu "ddiwrnod ym mywyd" i helpu gweithwyr i ddeall gwahanol swyddi ar draws y sefydliad.
- Cynnal sesiwn datrys problemau lle mae timau yn cydweithio ar her go iawn yn y gweithle a dysgu drwy gydweithio.
- Dathlu llwyddiannau dysgu gyda thystysgrifau, cydnabyddiaeth, straeon dysgwyr neu fur dysgu yn dangos yr hyn mae pobl yn falch i fod wedi ei ddysgu.

**Cadwch y gweithgareddau yn anffurfiol, cynhwysol a hygyrch. Y nod yw sbarduno chwilfrydedd ac annog cymryd rhan.**

# Dywedwch wrthym beth sydd gennych ar y gweill ar gyfer yr Wythnos Addysg Oedolion



**Hoffem eich ychwanegu at restr o gyflogwyr gwych ledled Cymru sy'n ymroddedig i gefnogi dysgu a datblygu sgiliau. Gadewch i ni wybod beth sydd gennych ar y gweill; byddwn hefyd eisiau cysylltu â chi ar ôl yr ymgyrch i gael adborth o'ch digwyddiadau.**

Drwy greu cyfleoedd gweladwy a chynhwysol i ddysgu, gall cyflogwyr helpu pobl i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi a chryfhau sgiliau, gwydnwch a galluoedd eu gweithlu.

Gwahoddwn chi i ymuno â ni ar gyfer yr ymgyrch i ddathlu dysgu yn y gweithle, creu cyfleoedd newydd i ddysgu a dod â phobl at ei gilydd.

**Cliciwch ar y botwm isod i lenwi ein ffurflen gofrestru:**

**Mynd i ffurflen gofrestru yr ymgyrch**

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymgyrch neu angen cymorth gyda'r ffurflen, cysylltwch â:alwevents@learningandwork.org.uk.

# Adnoddau a sgiliau ar gyfer straeon llwyddiant gwaith

Wythnos Addysg Oedolion
Adult Learners' Week

**Cliciwch ar y dolenni isod i ymchwilio mwy o gyngor ac arweiniad ar yrfaoedd:**


- Platfform yr Wythnos Addysg Oedolion
- Platfform Cymru'n Gweithio
- Cyfrifon Dysgu Personol
- Adolygiadau canol gyrfa
- Gwirfoddoli Cymru
- Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA)

**Brandio'r Wythnos Addysg Oedolion:**
Ewch i'n bwrdd Padlet i lawrlwytho logos a dylunwaith yr ymgyrch ar gyfer cyfryngau cymdeithasol.

**Cliciwch ar yr eiconau cyfryngau cymdeithasol isod i lawrlwytho ein templed o negeseuon dwyieithog ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol.**

LinkedIn Instagram Facebook










# Efallai y bydd gennych ddiddordeb yn ein hymchwil



**Ymchwiliwch ein adroddiadau allweddol, yn cynnwys cyfranogiad oedolion mewn dysgu, iechyd a sgiliau gweithle, ac anweithgaredd economaidd.**

**Mae ein hymchwil yn rhoi tystiolaeth a gwybodaeth i helpu llywio polisi ac ymarfer:**

- Arolwg Cyfranogiad Oedolion mewn Dysgu – Tirlun dysgu yng Nghymru
- Cynllun Gwaith, Iechyd a Sgiliau ar gyfer Cymru
- Pa ffordd nawr ar gyfer cymorth cyflogaeth yng Nghymru?
- Buddsoddiad Cyflogwyr mewn Sgiliau Nuffield – i'w gyhoeddi ym mis Medi 2026

**Discover more research, findings and insights on our website:**

- https://learningandwork.org.uk/cy/work/theme/employment/




**Cadw mewn cysylltiad â'r Sefydliad Dysgu a Gwaith:**

**E-bost ymholiadau am yr ymgyrch**: alwevents@learningandwork.org.uk
**Gwefan y Sefydliad Dysgu a Gwaith**: https://sefydliaddysguagwaith.cymru/cy/

**LinkedIn y Sefydliad Dysgu a Gwaith**: @Sefydliad Dysgu a Gwaith | Learning and Work Institute
**Facebook y Sefydliad Dysgu a Gwaith**: @Sefydliad Dysgu a Gwaith / Learning and Work Institute
**Instagram y Sefydliad Dysgu a Gwaith**: @learnworkcymru
**YouTube y Sefydliad Dysgu a Gwaith**: Learning and Work Institute Wales